Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd

Dyddiad: Dydd Iau, 15 Rhagfyr 2016

Amser: 10.02 – 11.59

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3873

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Simon Thomas AC (Cadeirydd) Mike Hedges AC David Rees AC Steffan Lewis AC Nick Ramsay AC Mark Reckless AC
Tystion:	Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol Sarah Tully, Llywodraeth Cymru Emma Cordingley, Llywodraeth Cymru
Staff y Pwyllgor:	Bethan Davies (Clerc) Georgina Owen (Dirprwy Glerc) Martin Jennings (Ymchwilydd) Helen Jones (Ymchwilydd) Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Eluned Morgan AC.

2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

3 Y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 1

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Mark Drakeford AC – Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol; Emma Cordingley – Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru; a Sarah Tully – Rheolwr Prosiect Polisi Treth Ddatganoledig, Llywodraeth Cymru ynghylch Y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru).

3.2 Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'n:

- darparu manylion am y gyfran o dreth tirlenwi a delir gan awdurdodau lleol;
- darparu rhestr o'r deunyddiau cymwys presennol; ac
- ysgrifennu at y Pwyllgor yn dilyn y trafodaethau ynghylch i ba raddau y mae'r Bil yn ymdrin â chloddio glo brig.

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

5 Y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru): Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

6 Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru: Paratoadau ar gyfer gweithredu datganoli cyllidol yng Nghymru

6.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad, a chytunodd i wahodd Archwilydd Cyffredinol Cymru i roi tystiolaeth lafar yn y Flwyddyn Newydd.

7 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013: Rôl y Pwyllgor Cyllid

7.1 Nododd y Pwyllgor ei ofynion yn unol â'r Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

8 Y flaenraglen waith

8.1 Nododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith ar gyfer tymor y gwanwyn.